# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 18fed Rhagfyr 2014.**

**Presennol.** Cynghorwyr:- Dafydd Evans, Siôn Ifans, Aled Griffiths, Hugh Jones, Derryck Lewis, Gareth Owen, William Owen, Geraint Wigley, Huw Williams, Gwen Lloyd, Ann Williams a Gwenfair Davies.

**Ymddiheuriadau. Cynghorwyr:-** John Pughe Jones a'r Cynghorydd Sirol G.P.Fychan.

Croesawyd Major Ifan Edwards o Doldwymyn i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Roedd wedi gofyn am ganiatâd i wneud cyflwyniad i'r Cyngor Cymuned. Ei fwriad yw newid adeiladau amaethyddol Doldwymyn i fod yn gartref i'r henoed ond mae'n cael trafferth efo'r fynedfa i'r briffordd. Roedd yn ceisio am gefnogaeth y Cyngor i'w gais. Roedd yr aelodau'n gefnogol a bydd llythyr yn cael ei anfon i'r perwyl hwnnw wedi derbyn y cais cynllunio.

**59. Cofnodion cyfarfod 27ain Tachwedd 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**60. Materion yn codi o'r cofnodion.**
52. Sedd wag yn Ward Darowen. Nid yw'r Cyngor Sir wedi derbyn cais, felly mae'r cyngor yn rhydd i gyfethol un i gynrychioli'r ward. Cyfetholwyd Paul Hughes, Minffordd yn unfrydol.
44.19.17.1 Canolfan ailgylchu ym Machynlleth. Mae'r trefniant o godi nwyddau i'w hailgylchu ar fore Sadwrn yn unig yn mynd rhagddo.
44.25.10 Ymweliad Adrian Jervis. Diolchwyd i Gwilym a Derryck am fynd o gwmpas efo Adrian Jervis. Gobeithio y bydd yr ymweliad yn dwyn ffrwyth.
44.42.3 Cyfarfod yng Ngheinws. Nid yw nos Lun yn gyfleus i Richard Baker, ond addawodd Huw Williams holi ymhellach pryd fydd y ganolfan yn gyfleus.
57.2 Dosbarthwyd copi o'r gwariant ar y toiledau yng Nghemaes am y flwyddyn 2013/2014.
58.3 Darllenwyd ymateb y Cyngor Sir i'r gŵyn am y Ganolfan Hamdden. Derbyniwyd addewid fod pethau'n mynd i wella.

**61. Cynllunio.**
**TREE/2014/0044.** Cais i glirio coed o fewn ardal cadwraeth yn Moorabin, Abercegir. Cefnogi
**P/2014/0980.** Cais (ôl-weithredol) i godi adeilad yn Squires Roost, Cwmlline. Cyn belled a bod y busnes sy'n cael ei redeg o'r safle o fewn canllawiau'r adran gynllunio nid oedd gwrthwynebiad.

**62. Eitemau i'w talu.**
62.1 Cyflog a chostau tri mis y clerc.£798.26.

**63. Ceisiadau am arian yn cynnwys ceisiadau oddi wrth elusennau**.
Trosglwyddwyd dau gais i Gronfa'r Melinau Gwynt.
Roedd yr aelodau wedi derbyn rhestr o'r ceisiadau a dderbyniwyd oddi wrth elusennau yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r cyfraniadau a roddwyd yn y tair blynedd ddiwethaf. Wedi trafodaeth, pasiwyd fod yn bryd edrych yn fwy manwl ar wariant y cyngor a bod cyfraniad blynyddol y cyngor i elusennau yn un lle gellir gwneud arbedion. Mae penderfyniad eisoes wedi ei wneud i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod trwy gyfrannu £1500 dros gyfnod o dair blynedd. Mae £500 yn ddyledus yn 2015.
Yn ychwanegol cefnogwyd cais Ambiwlans Awyr yn unig drwy gyfrannu £200 am eleni.

**64. Penderfynu ar faint yr archebiant (*Precept*) am 2015/2016.**
Roedd y clerc wedi anfon llythyr i'r aelodau yn awgrymu y gallai'r Cyngor Sir drosglwyddo fwy o gyfrifoldebau i'r cynghorau cymuned yn y dyfodol, ac awgrymodd codi'r prisept i £10000 am y flwyddyn 2015/2016. Er bod £912 wedi ei dderbyn tuag at gostau'r mynwentydd ar gyfer 2015/2016 (cyfraniad dwy flynedd) a bod lleihad o £925 yn y gwariant i elusennau, cytunwyd ar archebiant o £10000 er mwyn codi'r cyfrif wrth gefn *(reserve account)* ar gyfer y dyfodol.

**65. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.** Nid oedd adroddiad ym mis Rhagfyr.

**66. Gohebiaeth.**
66.1 Dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd eleni bydd y gwasanaeth casglu sbwriel yn effeithio ar y rhai sy'n arferol cael ei gasglu ar ddydd Iau a dydd Gwener. Cesglir rhai dydd Iau ar y Sadwrn a rhai Gwner ola'r flwyddyn ar y Sul canlynnol.

**67. Unrhyw fater arall.**
67.1 Mae gormod o sbwriel yn cael ei adael ar ochrau'r ffyrdd.
67.2 Dwr yn cronni ger Glandyfi, Llanwrin.
67.3 Cwyn gyffredinol fod cyflwr y ffyrdd yn dirywio, a hynny cyn cael achos i ddefnyddio llawer o halen.
67.4 Angen i'r lori halen ddosbarthu'r halen heibio i Rhosawel, Cwmllinau.

**68.** Croesawyd Tom ac Eleanor Thomas i'r cyfarfod ac, ar ran yr aelodau, diolchodd Hugh Jones yn gryno iawn i Tom am ei gyfraniad i'r gymuned yn cynrychioli Abercegir a Darowen ar y Cyngor am hanner can mlynedd. Cyflwynwyd tystysgrif mewn ffrâm iddo gan y cadeirydd Gareth Owen a chyflwynwyd torch o flodau i Eleanor gan yr is-gadeirydd Gwenfair Davies. Roedd y tair chwaer sy'n aelodau o'r cyngor wedi paratoi a threfnu lluniaeth ar gyfer pawb.

Nid oedd mater arall.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29ain Ionawr 2015.**